# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Ystafell Gynhadledd 4B - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 10 Mawrth 2020

Amser: 08.30 - 09.10

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AC, Llywydd (Cadeirydd)<br>Julie James AC<br>Russell George AC<br>Siân Gwenllian<br>Caroline Jones AC |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Ann Jones AC, Y Dirprwy Lywydd<br>Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad<br>Elin Roberts, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

Anfonodd y Trefnydd ei hymddiheuriadau, roedd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol yn bresennol yn ei lle.

Anfonodd Darren Millar ei ymddiheuriadau ac roedd Russell George yn bresennol yn ei le.

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod ar gyfer eu cyhoeddi.

## 3 Trefn busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

Cynigiodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol y dylai'r Cyfarfod Llawn ddechrau am 1pm ddydd Mawrth, yng ngoleuni'r busnes swmpus ac, yn benodol, hyd tebygol dadl Cyfnod 3. Cytunodd y Rheolwyr Busnes i'r cynnig hwn.

Dywedodd y Llywydd wrth y Rheolwyr Busnes nad yw'n credu y dylai'r Cyfarfod Llawn eistedd lawer yn hwyrach na 10pm. Esboniodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol mai bwriad y llywodraeth, pe na bai Cyfnod 3 yn cael ei gwblhau ddydd Mawrth, yw symud cynnig gweithdrefnol i ohirio gweddill yr eitem tan ar ôl cwestiynau llafar ddydd Mercher.

Dywedodd y Llywydd wrth y Rheolwyr Busnes hefyd y bydd egwyl o 10 munud cyn i Gyfnod 3 ddechrau ac yna egwyl arall am gyfnod hirach o amser rywbryd ar ôl 7.30, yn dibynnu ar gynnydd.

Dywedodd y Rheolwyr Busnes eu bod yn gresynu y byddai'r datganiad gan y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod yn cael ei gyhoeddi fel datganiad ysgrifenedig a gofynnodd a ellid aildrefnu'r datganiad i ddiwrnod arall. Nodwyd hefyd nad oedd parhau â chyfarfodydd hwyr fel hyn yn gynaliadwy i'r rheini sydd â chyfrifoldebau gofalu

**Dydd Mawrth**

- Cynhelir y Cyfnod Pleidleisio fel yr eitem olaf o fusnes.

**Dydd Mercher**

- Cynhelir y Cyfnod Pleidleisio cyn y Ddadl Fer.

### 3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

### 3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn busnes y Cynulliad a chytunodd i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

**Dydd Mercher 22 Ebrill 2020 –**

- Dadl ar adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau – Caffael Cyhoeddus yn yr Economi Sylfaenol (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)

## 4 Busnes y Cynulliad

### 4.1 Senedd Clwyd

Cytunodd y Rheolwyr Busnes ar yr amserlen amlinellol arfaethedig ar gyfer yr wythnos yn cychwyn ar 8 Mehefin, sy'n gyson ag amserlenni arferol y pwyllgorau a'r Cynulliad, y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor Busnes. Cytunwyd hefyd i gynnal y gymhareb arferol o fusnes y llywodraeth a busnes nad yw'n fusnes y llywodraeth ar gyfer y ddau Gyfarfod Llawn, ar 9 a 10 Mehefin.

Trafododd y Rheolwyr Busnes opsiynau ar gyfer y mathau o fusnes, nad yw'n fusnes y llywodraeth, a gaiff ei amserlennu yn ystod y ddau Gyfarfod Llawn a gaiff eu cynnal yng ngogledd Cymru ar 9 a 10 Mehefin a chytunwyd i:

- amserlennu dadl y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ond gan ofyn i'r Pwyllgor a fyddai'n fodlon â slot 30 munud;
- trefnu Dadl Aelod a gwahodd Aelodau i gyflwyno cynigion i'w dewis;
- cynnal pleidlais Dadl Fer bwrpasol ar gyfer yr wythnos honno, yn hytrach na'i chynnwys yn y balot tymhorol;
- amserlennu 60 neu 90 munud o amser i wrthblaid, gyda grwpiau gwrthbleidiau i drafod y tu allan i'r Pwyllgor Busnes sut y gallai'r amser hwnnw gael ei ddyrannu a'i ddefnyddio.

## 5 Unrhyw Fater Arall

### Cwestiynau

Gofynnodd y Llywydd i'r Rheolwyr Busnes ddweud wrth yr Aelodau i beidio â dyfynnu o ohebiaeth yn ystod cwestiynau, gan fod hyn yn gwneud cyfraniadau yn rhy hir. Dylai'r aelodau fod yn gofyn cwestiynau, yn hytrach na gwneud areithiau.

### Coronafirws

Dywedodd y Llywydd wrth y Rheolwyr Busnes y bydd y Comisiwn yn ystyried papur ar Coronafirws yr wythnos nesaf.